Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: PO798/EJ/OR

27 Ionawr 2020

Annwyl Mick,

Tynnu offerynnau statudol yn ôl

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 13 Ionawr 2020 ynghylch tynnu offerynnau statudol yn ôl a'r materion sy'n ymwneud â Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2019.

Cytunaf â'ch barn nad yw'n briodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Rheol Sefydlog 27.11 i dynnu offerynnau statudol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cynulliad yn ôl yn unochrog. Cytunaf hefyd y dylai Llywodraeth Cymru dynnu offerynnau yn ôl mewn rhai amgylchiadau yn unig.

Fy nehongliad i yw y bwriedir i Reol Sefydlog 27.11 fod yn gymwys i is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i gosod ond nad yw wedi'i gwneud eto gan Weinidogion Cymru na'i chymeradwyo gan y Cynulliad. Fodd bynnag, mae ei eiriad presennol hefyd yn ddefnyddiol wrth roi digon o hyblygrwydd ar gyfer yr amgylchiadau prin iawn hynny lle y gallai fod yn briodol tynnu offerynnau yn ôl ar ôl iddynt gael eu gwneud neu eu cymeradwyo, a lle nad oes dirymiad nac opsiynau eraill ar gael. Yn yr achosion hyn, byddwn bob amser yn disgwyl i'r Llywodraeth esbonio'r rheswm dros dynnu'n ôl, yn gyntaf i mi, ac yna i'r Cynulliad.

Ers i'r Gweinidog ysgrifennu ataf ynglŷn â'r mater hwn ar 11 Rhagfyr, deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â thynnu'r gorchymyn gwreiddiol yn ôl cyn gosod gorchymyn diwygiedig ar 14 Ionawr i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Chwefror.

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Serch hynny, byddwn yn dal i ddisgwyl i'r Gweinidog roi esboniad yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn amlinellu pam y mae angen trafod gorchymyn newydd, a pham na wnaed yr un cyntaf er iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English